**Y Pwyllgor Cyllid**
—
**Finance Committee**

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565
—
**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
senedd.wales/SeneddFinance
0300 200 6565

David Rees AS
Cadeirydd Pwyllgor y Llywydd

23 Chwefror 2024

Annwyl David,

Gweithdrefnau Cyllideb Atodol a Phrotocol Proses y Gyllideb: Ymgynghoriad â Chyrff a Ariennir yn Uniongyrchol

Fel y gwyddoch, mae’r Pwyllgor yn ddiweddar wedi cynnal ymgynghoriad â phob Corff a Ariennir yn Uniongyrchol ynghylch adolygiad y Pwyllgor o’r Datganiad o Egwyddorion. Wrth ystyried yr ymatebion i ddechrau, nid oedd y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn cefnogi newidiadau ar raddfa fawr i'r Rheolau Sefydlog mewn perthynas â'r gweithdrefnau ar gyfer cyllidebau atodol. Fodd bynnag, mae profiadau diweddar wedi arwain at gwestiynu addasrwydd a chynaliadwyedd y gweithdrefnau hyn ac a ydynt yn adlewyrchu'n gywir statws cyfansoddiadol y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol.

Mae hyn yn ymwneud ag achosion lle mae ceisiadau am gyllid atodol wedi'u gwneud gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, er gwaethaf arwyddion clir gan Lywodraeth Cymru nad ydynt yn bwriadu cyflwyno cyllideb atodol i ryddhau cronfeydd o'r fath. Yn benodol, er ei bod yn arfer sefydledig a derbyniol y bydd Llywodraeth Cymru yn cynnwys unrhyw amrywiadau y gofynnir amdanynt gan y Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol yn ei chynnig cyllideb atodol, nid yw'n ofyniad penodol i'r Rheolau Sefydlog. Felly, gofynnwn am ragor o safbwyntiau gan Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol ar y mater penodol hwn, gan gynnwys a oes angen cyflwyno newidiadau i ddileu unrhyw amwysedd yn y broses bresennol.

At hynny, ochr yn ochr â'r adolygiad o'r Egwyddorion, mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnal adolygiad o Brotocol Proses y Gyllideb. Rydym wrthi'n trafod newidiadau arfaethedig gyda'r Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol i adlewyrchu'r arfer presennol yn well yn y Senedd. Mae crynodeb o'r newidiadau arfaethedig sy'n cael eu hystyried wedi’u nodi mewn gohebiaeth i'r Gweinidog ar 11 Rhagfyr 2023.

O ystyried bod y Protocol yn berthnasol i'r Cyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, byddem yn croesawu unrhyw safbwyntiau ychwanegol a allai fod gan y Comisiwn Etholiadol ar y Protocol ei hun, a’r effaith y gallent ei chael ar Gyrff a Ariennir yn Uniongyrchol, a fyddai’n llywio trafodaethau parhaus rhwng y Pwyllgor a’r Gweinidog ar y materion hyn.

Felly, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymgysylltu â’r Comisiwn Etholiadol i ofyn am ragor o safbwyntiau ar y gweithdrefnau presennol ar gyfer cyllidebau atodol, ac ar y newidiadau arfaethedig i’r Protocol. Nid oes angen i'r Comisiwn ailddatgan y safbwyntiau sydd eisoes wedi'u mynegi yn ei ymateb i'r adolygiad o'r Datganiad o Egwyddorion, fodd bynnag, byddwn yn croesawu unrhyw sylwadau pellach erbyn dechrau tymor yr haf, ddydd Llun 15 Ebrill.

Yn gywir



Peredur Owen Griffiths AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.